



## Gwybodaeth ar Ddiogelwch a Chefnogaeth ar gyfer Ffoaduriaid, Ceiswyr Lloches, Mudwyr, ac eraill sydd â phryderon am eu diogelwch.

Casglwyd y wybodaeth hon gan Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru, a gall newid wrth i fwy o wybodaeth ddod i law.

### **Pryderon Uniongyrchol**

**Os yw eich sefyllfa'n un treisgar neu fod rhywun mewn perygl uniongyrchol, cysylltwch â 999 ar unwaith.**

### **Trosedd Casineb**

#### **Beth yw trosedd casineb?**

Mae troseddau casineb yn cael eu diffinio fel troseddau sy'n ymddangos i'r dioddefwr neu unrhyw unigolyn arall i fod yn seiliedig ar:

- Anabledd
- Hil neu ethnigrwydd
- Crefydd neu gred
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Hunaniaeth o ran rhywedd

Gall unrhyw un fod yn ddioddefwr trosedd casineb, ac nid oes angen i'r dioddefwr fod yn rhan o'r grŵp targed.

#### **Pam ddylech chi adrodd trosedd casineb?**

Gall digwyddiadau o drosedd casineb fod yn ofnus, ac mae eu hadrodd yn gwneud gwahaniaeth. Drwy eu hadrodd, rydych yn helpu i atal y digwyddiadau hyn rhag digwydd i eraill yn y dyfodol, ac mae'n helpu i'r heddlu ddeall graddfa'r trosedd casineb yn eich ardal leol.

#### **Yr Heddlu**

Yng Nghymru, mae nifer o ffyrdd i adrodd trosedd casineb. Gallwch adrodd trosedd casineb yn uniongyrchol i'r heddlu. I adrodd, ffoniwch **101**, ewch i orsaf heddlu, neu dilynwch un o'r dolenni isod:

[Sut i adrodd trosedd casineb | Heddlu De Cymru \(heddlu-de-cymru.police.uk\)](https://www.heddlu-de-cymru.police.uk)

[Sut i adrodd trosedd casineb | Heddlu Dyfed-Powys](#)

[Sut i adrodd trosedd casineb | Heddlu Gogledd Cymru](#)

[Sut i adrodd trosedd casineb | Heddlu Gwent](#)

[Adrodd trosedd casineb | Police.uk \(www.police.uk\)](https://www.police.uk)

Mae True Vision yn wefan a ariennir gan yr heddlu i gefnogi pobl â throedd casineb: [Stop Homophobic, Transphobic, Racial, Religious & Disability Hate Crime - True Vision \(report-it.org.uk\)](https://www.true-vision.org.uk)

### **Adrodd am drosedd casineb a chefnogi dioddefwyr.**

Mae nifer o **elusennau** y gall eich helpu i adrodd trosedd casineb a chynnig cefnogaeth i chi.

Canolfan Cymorth Casineb Cymru: [Cysylltwch: Casineb.CrimeWales@victimsupport.org.uk](https://www.cysylltwch.org.uk)  
Rhif ffôn Cymorth i Ddioddefwyr: 0300 3031 982  
E-bost: [Casineb.CrimeWales@victimsupport.org.uk](mailto:Casineb.CrimeWales@victimsupport.org.uk)

Cymorth gydag adrodd am drosedd casineb a chefnogaeth: [Home - Stop Hate UK](https://www.stop-hate.org.uk)  
Llinell gymorth 24 awr: 0800 138 1625  
Neges destun: 07717 989 025  
E-bost: [talk@stophateuk.org](mailto:talk@stophateuk.org)

Adrodd am drosedd casineb yn anhysbys: [Elusen Annibynnol yn y DU sy'n cymryd gwybodaeth am drosedd yn ddiennw | Crimestoppers \(crimestoppers-uk.org\)](https://www.elusen.org.uk)  
Rhif ffôn: 0800 555 111

### **Cefnogaeth ar gyfer Casineb gwrth-Fwslim**

Cefnogaeth ar gyfer Casineb Gwrth-Fwslim: [Tell Mama: Adrodd Casineb Gwrth-Fwslim neu Islamoffobia \(tellmamauk.org\)](https://www.tellmamauk.org)  
Rhif ffôn: 0800 456 1226  
Neges Destun: 0115 707 00 07  
WhatsApp: 0734 184 6086  
E-bost: [info@tellmamauk.org](mailto:info@tellmamauk.org)

### **Iaith Casineb, Trosedd Casineb ar-lein a Cham-drin ar-lein**

Gwybodaeth ar sut i adrodd am iaith casineb a throedd casineb ar-lein: [Report Harmful Content - We Help You Remove Content](https://www.report-harmful-content.org)

### **Cefnogi ceiswyr Lloches Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches**

Os ydych chi mewn perygl uniongyrchol, cysylltwch â'r **heddlu ar 999**. Fel arall, gallwch gysylltu â'ch gweithiwr cymdeithasol / ymgynghorydd personol am gefnogaeth.

### **Oedolion sy'n ceisio lloches Clearsprings Ready Homes**

Os ydych chi'n geisiwr lloches yng Nghymru, eich darparwr llety yw Clearsprings Readyhomes. OS oes gennych unrhyw brydero am y llety rydych yn aros ynddo, neu'n teimlo mewn perygl, cysylltwch gyda rheolwr eich llety yn gyntaf. Rhoddwyd eu manylion i chi yn y pecyn cyflwyno.

### **Migrant Help**

Gall Ceisiwr Lloches gael mynediad 24/7 gan Migrant Help. Am anghenion o ran pryderon neu ddiogelu, gallwch gysylltu â'r Ganolfan Ymateb Cyntaf ar 08088 010 503 neu ar eu gwefan: [Contact | Migrant Help \(migranthelpuk.org\)](https://migranthelpuk.org).

**Mae Migrant Help yn cyngori ceiswyr lloched i gysylltu Clearsprings Readyhomes yn gyntaf, mewn perthynas â phryderon ynghylch eich llety.**

### **Adnoddau eraill**

#### **Cenedl Noddfa**

Mae gwefan cenedl noddfa yn cynnig gwybodaeth ar sut i gadw'n ddiogel yng Nghymru. [Noddfa | Aros yn Ddiogel \(llyw.cymru\)](https://www.noddfa.gov.uk).

### **Cefnogaeth iechyd meddwl**

Am gefnogaeth iechyd meddwl brys, ffoniwch **y GIG ar 11 phwyswch DDEWIS**

**2.** Mae'r gwasanaeth hwn ar gael 24/7 ym mhob ardal o Gymru i sicrhau bod y sawl sydd angen cefnogaeth yn cael mynediad cyflym ato pan maent arnynt ei angen.

Yng Nghymru, mae llinell gymorth CALL ar agor 24/7, gyda chefnogaeth emosiynol a chyngor. Rhadffôn CALL yw **0800 132 737** neu gallwch ganfod gwybodaeth ar iechyd meddwl a lles ar <https://www.callhelpline.org.uk/>

Mae mwy o wybodaeth yma: [GIG 111 Cymru- Iechyd Meddwl a Lles.](https://www.gig111.gov.uk)

### **Dewis Cymru**

Gall porwr Dewis Cymru eich helpu chi i ganfod sefydliadau mewnfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n cynnig cefnogaeth gydag anghenion eraill. [dewis.cymru](https://www.dewis.gov.uk)

[AM adborth neu ddiweddariadau i'r daflen wybodaeth hon, anfonwch neges at WSMPComms@wlga.gov.uk](mailto:WSMPComms@wlga.gov.uk)